OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 677 (Cy. 186)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 37 (Y Pîl), Pen-y-bont ar Ogwr i Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer), Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Mehefin 2016* |
| *Yn dod i rym* | *7 Mehefin 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) ("y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mehefin 2016 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 37 (Y Pîl), Pen-y-bont ar Ogwr i Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer), Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch tan 06:00 o'r gloch ar 20 Mai 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o'r draffordd rhwng Cyffordd 37 (y Pîl) yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr a

Chyffordd 47 (Penlle'r-gaer) yn Ninas Abertawe a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Mehefin 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 37 (y Pîl) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 39 (y Groes).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 37 (y Pîl).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 38 (Margam) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth

Gyffordd 39 (y Groes).

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 40 (Tai-bach).

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla).

Y darn o’r gerbytffordd tua’r gorllewin sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

Y darn o’r gerbytffordd tua’r gorllewin sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 44 (Lôn-las) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan).

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 44 (Lôn-las).

Y darn o’r gerbytffordd tua’r gorllewin sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach).

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan).

Y darn o’r gerbytffordd tua’r gorllewin sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 47 (Penlle’r-gaer).

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach).

Y darn o’r gerbytffordd tua’r dwyrain sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 47 (Penlle’r-gaer) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach).

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 47 (Penlle’r-gaer).

Y darn o’r gerbytffordd tua’r dwyrain sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan).

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach).

Y darn o’r gerbytffordd tua’r dwyrain sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth

Gyffordd 45 (Ynysforgan) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 44 (Lôn-las).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41 (Pentyla).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41 (Pentyla).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 40 (Tai-bach).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 37 (y Pîl).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam).

**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 37 (Y PÎL), PEN-Y-BONT AR OGWR I GYFFORDD 47 (PENLLE'R-GAER), ABERTAWE) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2016**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn oherwydd bod gwaith yn cael ei wneud ar draffordd yr M4, neu gerllaw iddi, o Gyffordd 37, y Pîl i Gyffordd 47, Penlle'r-gaer.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro a ganlyn, y codir arwyddion priodol ynghylch eu hyd a'u lled, yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 7 Mehefin 2016 ac yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 20 Tachwedd 2017 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithiro cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Pennir y llwybrau eraill hefyd yn yr Atodlen.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2016).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

## HYD A LLED Y GWAHARDDIAD AR BOB CERBYD A LLWYBRAU ERAILL

### Gwaharddiadau

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 37 (y Pîl) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 39 (y Groes).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 37 (y Pîl).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 38 (Margam) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 39 (y Groes).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 40 (Tai-bach).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 44 (Lôn-las) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 44 (Lôn-las).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 44 (Lôn-las).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41 (Pentyla).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41 (Pentyla).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 40 (Tai-bach).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 37 (y Pîl).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam).

<u>Llwybrau Eraill</u>

Bydd y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn

eu cylch, yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o draffordd ar gau i draffig.

Bydd y llwybrau eraill hyn yn cynnwys yr A4229; yr A48; yr A4241; yr A4017; yr A4067 a'r B4246 a bydd arwyddion yn cael eu gosod i nodi'r gwyriad.